# Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol 2023

## GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR GLEFYD SELIAG A DERMITIS HERPETIFORMIS

Cadeirydd: Rhun ap Iorwerth AS
Ysgrifennydd:  Tristan Humphreys

29 Tachwedd 2023

# 1. Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi

**Cadeirydd:**
Rhun ap Iorwerth AS

**Ysgrifennydd:**
Tristan Humphreys – Pennaeth Eiriolaeth, Coeliac UK

**Aelodau:**

Rhun Ap Iorwerth AS, Peredur Owen-Griffiths AS, Mark Isherwood AS, Russell George AS, Mike Hedges AS.

Tristan Humphreys (Ysgrifennydd/Pennaeth Eiriolaeth, Coeliac UK), Fiona Newsome (Cynghorydd Tystiolaeth a Pholisi, Coeliac UK), Claire Constantinou (Prif Ddeietegydd Gweithredol, Ysbyty Athrofaol Cymru), Dr Geraint Preest (Practis Meddygol Pencoed), Graham Phillips (Grŵp Seliag Abertawe), Ian Severn (Grŵp Seliag Caerdydd), Simon Scourfield (Arweinydd Rheoli Gweithrediadau, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru), Sian Evans (Dietegydd Paediatreg, Ysbyty Athrofaol Cymru), Dr Jill Swift (Gastroenterolegydd Ymgynghorol, wedi ymddeol), Alison Jones (Deietegydd Cymorth Presgripsiynu Arweiniol Clinigol, Bwrdd Iechyd Hywel Dda), Dr Vivek Goel (Ysbyty Spire Caerdydd), Dr Ieuan Davies (Gastroenterolegydd Pediatrig Ymgynghorol, Ysbyty Athrofaol Cymru), Dr Richard Cousins (Imiwnolegydd Ymgynghorol, Ysbyty Athrofaol Cymru), Gwawr James (Deietegydd Cenedlaethol ar gyfer Deietau Arbennig mewn Ysgolion, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Eleanor Wilson (Uwch Brif Nyrs, Practis Meddygol Pencoed).

**Cyfarfodydd blaenorol y Grŵp ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf.**

**Cyfarfod 1.**

**Dyddiad y cyfarfod:** 31 Ionawr 2023
**Yn bresennol**: Rhun ap Iorwerth AS – Cadeirydd (RaI), Tristan Humphreys – Ysgrifennydd/Coeliac UK (TH), Fiona Newsome (FN), Claire Constantinou (CC), Gwawr James (GJ), Ian Severn (IS), Dr Geraint Preest (GP), Russell George (RG), Dr Jill Swift (JS), Dr Richard Cousins (RC), Eleanor Wilson (EW), Mark Isherwood AS (MI)

**Crynodeb o'r materion a drafodwyd:**

- **Ethol swyddogion:** Ail-etholwyd RaI yn gadeirydd y grŵp (Enwebwyd gan: MI, Eiliwyd gan: MH). Ail-etholwyd TH o Coeliac UK (CUK) yn ysgrifennydd y grŵp (Enwebwyd gan: MI, Eiliwyd gan: MH).

- **Cost, mynediad ac argaeledd:** Mae prosiect cost bwyd heb glwten (GF) Coeliac UK yn edrych ar faich ariannol bwyd heb glwten. Mae'r argyfwng costau byw yn ffocws gwirioneddol i'r elusen gyda gwaith yn parhau yn y maes hwn drwy gydol 2023. Bydd

ffocws cychwynnol ar ragnodi, yn bennaf yn Lloegr oherwydd bod comisiynwyr wedi tynnu darpariaeth yn ôl yn y blynyddoedd diwethaf. Bydd Cam 2 yn canolbwyntio ar ymgysylltu â manwerthwyr a bydd yn cysylltu â'r cynllun cerdyn cymhorthdal yng Nghymru. Disgwylir i'r adroddiad ar gostau gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2023.

- **Gweithgarwch Seneddol:** Mae'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol yn lansio ymchwiliad i ddiagnosis yn ystod yr wythnosau nesaf a byddai galwad am dystiolaeth i unrhyw un sydd eisiau cymryd rhan. Fe fydd sesiynau tystiolaeth yn San Steffan gyda'r bwriad o gyhoeddi adroddiad cyn toriad yr haf. Er mai'r gwasanaeth iechyd yn Lloegr fydd y prif ffocws, bydd llawer o drawsgroesi a bydd hyn yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig gyfan. Mae CUK yn gobeithio cael Grŵp Trawsbleidiol ar waith yn yr Alban. Roedd digwyddiad ar ddiagnosis yn cael ei gynnal ar 9 Mawrth gyda sgyrsiau gan CUK, hyrwyddwyr gofal iechyd proffesiynol a chynrychiolwyr cleifion.

- **Cinio am ddim i bawb mewn Ysgolion Cynradd:** Ysgrifennodd y Grŵp Trawsbleidiol lythyr at Weinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles AS, ynghylch mynediad at brydau am ddim i bawb mewn ysgolion cynradd a chafwyd ymateb cadarnhaol.

- **Marchnad bwyd heb glwten:** Hysbysebwyd Marchnad Bwyd Heb Glwten yng Nghaerdydd ar 3 Mehefin lle bydd 30-40 o gynhyrchwyr yng Nghanolfan Corner Stone ger Marks and Spencer.

**<u>Cyfarfod 2.</u>**

**Dyddiad y cyfarfod**: 8 Mehefin 2023
**Yn bresennol:** Rhun ap Iorwerth AS – Cadeirydd (RaI), Tristan Humphreys – Ysgrifennydd/Coeliac UK (TH), Fiona Newsome (FN), Claire Constantinou (CC), Gwawr James (GJ), Ian Severn (IS), Dr Geraint Preest (GP), Dr Richard Cousins (RC), Eleanor Wilson (EW)

**Crynodeb o'r materion a drafodwyd:**

- **Ymgyrch costau ac arolygon:** Cyhoeddwyd yr adroddiad ar gostau ym mis Mawrth 2023 a rhoddwyd diweddariad ar ei effaith ar y gymuned. Darparwyd gwybodaeth am Gam 2 yr ymgyrch gostau sy'n canolbwyntio ar fanwerthwyr ac arolwg gwyddorau dinasyddion ar argaeledd a chost bwyd heb glwten mewn archfarchnadoedd. Cafwyd diweddariad ar Gynllun Cerdyn Cymhorthdal Heb Glwten Cymru; mae Cydwasanaethau'r GIG bellach wedi ymgymryd â'r gwaith o redeg y cynllun yn lle Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae CUK yn rhan o'r grŵp llywio. Mae'r byrddau iechyd mewn gwahanol sefyllfaoedd, a bydd hon yn broses araf ond byddai cefnogaeth genedlaethol ar gyfer cyflawni a gweinyddu. Nid yw CUK wedi cyfarfod â'r Cydwasanaethau eto ond mae'n gobeithio gwneud hynny'n fuan.

- **Ymchwiliad diagnosis y Grŵp Seneddol Hollbleidiol:** Diweddariad ar ymchwiliad diagnosis a sesiynau tystiolaeth y Grŵp Seneddol Hollbleidiol; mae'r sesiynau tystiolaeth ar ddiagnosis bellach wedi eu cwblhau. Roedd yr arolwg yn dal yn agored os oedd unrhyw un eisiau cyfrannu, a gellid dosbarthu'r ddolen o gwmpas y grŵp. Bydd yr adroddiad yn cael ei ysgrifennu dros yr haf gyda'r nod o lansio'r adroddiad mewn digwyddiad ar 13 Medi yn San Steffan.

- **Digwyddiad yn Senedd yr Alban:** Cynhaliodd CUK dderbyniad diagnosis ym mis Mawrth gyda'r Gweinidog Iechyd y Cyhoedd ar y pryd, Maree Todd ASA. Roedd nifer dda yn bresennol ac mae hyn wedi ysgogi trafodaethau pellach ynghylch cyflwyno'r llwybr yn yr Alban.

- **Wythnos Codi Ymwybyddiaeth:** Cafwyd diweddariad ar ymgyrch Wythnos Ymwybyddiaeth CUK 'mae clefyd coeliag yn wahanol i bawb' a oedd yn anelu at daflu goleuni ar symptomau nas cydnabyddir yn gyffredin. Roedd wedi cael ei godi gan nifer o sianeli cyfryngau a bu gweithgarwch seneddol hefyd. Yng Nghymru, cyflwynodd RaI Ddatganiad Barn yn ogystal â chwestiynau seneddol. Yn ogystal, cyflwynodd Mark Isherwood gwestiynau seneddol a chwestiynau llafar i'r Gweinidog. Bu hyn yn effeithiol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gyfarfod gyda CUK.

- **Datblygu llwybr diagnosis:** Cafwyd diweddariad ar gynnig datblygu llwybr gastro ar y cyd yn Lloegr sy'n cael ei ddatblygu gan drawstoriad o elusennau gan gynnwys Crohn's and Colitis UK. Mae CUK wedi ei wahodd i gyfarfod â Llywodraeth Cymru i drafod y rhwystrau posibl mae pobl â chlefyd seliag yn eu hwynebu ac atebion posibl i wella canlyniadau. Trafodwyd safbwyntiau ar hyn.

- **REUL a chyfraith labelu bwyd heb glwten:** Bu rhai diwygiadau i gyfraith labelu bwyd heb glwten fel rhan o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir. Roedd CUK wedi bod yn gweithio gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd ac roedd yn teimlo'n hyderus eu bod yn deall y materion. Nid oes goblygiadau i Gymru ar hyn o bryd.

## 2. Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau mae'r grŵp wedi cwrdd â nhw yn ystod y flwyddyn flaenorol.

**Coeliac UK.**
3rd Floor,
Apollo House,
Desborough Road,
High Wycombe.
Buckinghamshire.
HP11 2QW

**Datganiad Ariannol Blynyddol**

Tachwedd 2023

Grŵp Trawsbleidiol ar Glefyd Seliag a Dermatitis Herpetiformis.

**Cadeirydd:** Rhun ap Iorwerth AS

**Ysgrifennydd**: Tristan Humphreys – Coeliac UK

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r Grŵp.** | Dim. | £0.00 |
| **Costau'r holl nwyddau.** | Ni phrynwyd nwyddau. | £0.00 |
| **Buddiannau a gafodd y grŵp neu'r aelodau unigol gan gyrff allanol.** | Ni chafwyd buddiannau. | £0.00 |
| **Unrhyw gymorth ysgrifenyddol neu gymorth arall.** | Ysgrifenyddiaeth wedi ei darparu gan Coeliac UK. Darparwyd fideo-gynadledda drwy gyfrif Zoom Coeliac UK. | Amherthnasol |
| **Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp – er enghraifft, lletygarwch.**<br><br>Dim arlwyo na lletygarwch | | |
| **Dyddiad** | **Disgrifiad o'r darparwr a'i enw** | **Cost** |
| | Pob cyfarfod wedi ei gynnal drwy Zoom | |
| | | |
| | | |
| | **Cyfanswm y gost** | **0.00** |